

## **RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD**

### **Erthygl 14 - Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad**

---

#### **14.1 Dyletswydd i fonitro ac adolygu'r cyfansoddiad**

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod amcanion ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu gweithredu'n llawn, a bydd yn hysbysu'r Cyngor ar sail hynny.

#### **14.2 Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

##### **(a) Cymeradwyaeth**

Ac eithrio fel y nodwyd fel arall, dim ond y Cyngor all gymeradwyo newidiadau i'r elfennau canlynol yn y Cyfansoddiad:

- Erthyglau
- Rheolau'r Cyngor, Pwyllgor, Craffu a Gweithdrefnau Cyflogaeth
- Cynllun Dirprwyo'r Cyngor
- Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyngor a Phwyllgorau Craffu
- Protocol Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion
- Cod Ymarfer Aelodau
- Cynllun Taliadau Ychwanegol Aelodau

##### **(b) Newid o ffurf arweinydd a chabinet o weithrediaeth i weithrediaeth maer a chabinet, neu i'r gwrthwyneb**

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion ar gyfer newid ei ffurf ar weithrediaeth.